Ysgol Tryfan

Cytundeb Defnydd Cyfrifol – *Acceptable Use Policy*

Defnyddio eich Dyfais Personol - Cytundeb Defnyddiwr *Bring Own Device – User Agreement*

Polisi Defnydd Cyfrifol yr Ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gellir defnyddio'r technolegau hyn i sbarduno trafodaeth, hybu creadigrwydd a gwella ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc fod â'r hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel bob amser.

Diben y Cytundeb Defnydd Derbyniol yw sicrhau'r canlynol:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill at ddibenion addysgol, personol a hamdden.
- y caiff systemau a defnyddwyr yr ysgol eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau fod gan disgyblion fynediad da at dechnolegau i wella eu profiad dysgu, ac yn sgil hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i'r disgyblion gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Cytundeb Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol yn gyfrifol, i sicrhau na chaiff fy niogelwch i na diogelwch y systemau TGCh a defnyddwyr eraill eu peryglu.

I sicrhau fy niogelwch personol i:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o systemau TG, dyfeisiau a chyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a fy nghyfrinair yn ddiogel - ni wnaf eu rhannu ag eraill, ac ni wnaf geisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair rhywun arall. Deallaf na ddylwn ysgrifennu na storio cyfrinair yn rhywle ble gallai rhywun arall ei ddwyn.
- Ni wnaf ddatgelu na rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf i nac eraill pan fyddaf ar-lein (gallai hyn gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-byst, rhifau ffôn, oedran, rhyw, manylion addysgol, manylion ariannol ac ati).
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddeunyddiau neu negeseuon annymunol neu anaddas neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus wrth ei weld ar-lein.

Deallaf fod gan bawb hawliau cyfartal i ddefnyddio technoleg fel adnodd ac:

- Rwy'n deall mai defnydd addysgol yw prif ddiben systemau a dyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf eu defnyddio at ddibenion personol neu hamdden oni fyddaf wedi cael caniatâd.
- Ni wnaf ddefnyddio systemau na dyfeisiau'r ysgol i chwarae gemau ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar-lein, rhannu ffeiliau neu ddarlledu fideos (e.e. Youtube), oni fyddaf wedi cael caniatâd gan aelod o staff i wneud hynny.

Byddaf yn ymddwyn fel rwyf yn disgwyl i eraill ymddwyn tuag ataf i:

- Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni wnaf gyrchu, copïo, symud na newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, oni fydd y perchennog yn gwybod am hynny ac wedi rhoi caniatâd i mi.
- Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol pan fyddaf yn cyfathrebu ag eraill, ni wnaf ddefnyddio iaith gref, ymosodol nac anaddas, ac rwy'n gwerthfawrogi fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
- Ni wnaf dynnu lluniau o neb na'u dosbarthu heb eu caniatâd.

Rwy'n cydnabod fod gan yr ysgol gyfrifoldeb i gynnal diogelwch ac integredd y dechnoleg y mae'n ei chynnig i mi ac i sicrhau fod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol:

- Rwy'n deall y peryglon ac ni wnaf geisio lanlwytho, lawrlwytho na chyrchu unrhyw ddeunyddiau sy'n anghyfreithlon neu'n anaddas neu rai a allai niweidio pobl eraill neu beri gofid iddyn nhw, ac ni wnaf geisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a allai ganiatáu i mi osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad at ddeunyddiau o'r fath.

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.tryfan.gwynedd.sch.uk

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddifrod neu namau yn ymwneud ag offer neu feddalwedd, waeth beth fydd wedi achosi hynny.
- Ni wnaf agor unrhyw hypergysylltiadau mewn e-byst nac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrth e-byst onid wyf yn adnabod ac yn ymddiried yn yr unigol / sefydliad sy'n anfon yr e-byst hynny, neu os bydd gennyf bryder am ddilysrwydd yr e-bost (oherwydd y perygl fod firysau neu raglenni peryglus eraill yn yr atodiad).
- Ni wnaf osod na cheisio gosod na storio rhaglenni o unrhyw fath ar ddyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf geisio newid gosodiadau cyfrifiaduron.

Defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion ymchwil, rwy'n cydnabod y canlynol:

- Dylaf sicrhau fod gennyf ganiatâd i gynnwys gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun
- Lle mae'r gwaith o dan hawlfraint, ni wnaf geisio lawrlwytho copïau (yn cynnwys cerddoriaeth a fideos)

Rwy'n deall fy mod yn atebol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol:

- Rwy'n deall fod gan yr ysgol hawl i gymryd camau yn fy erbyn os byddaf yn rhan o ddigwyddiadau o ymddygiad annerbyniol sydd wedi'u cwmpasu gan y cytundeb hwn, pan fyddaf yn yr ysgol a phan fydd y digwyddiadau hynny yn gysylltiedig â fy aelodaeth o gymuned yr ysgol (byddai enghreifftiau yn cynnwys seibrfwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol).
- Rwy'n deall y byddaf yn wynebu camau disgyblu os na fyddaf yn cydymffurfio â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn. Gall hyn gynnwys colli'r hawl i ddefnyddio rhwydwaith yr ysgol / y rhyngrwyd, Hwb+, Office 365, Moodle, cyfnodau cosb, gwaharddiadau dros dro, cysylltu â fy rhieni, ac mewn achos o weithgareddau anghyfreithlon, ymyriad yr heddlu.

School Acceptable Use Policy

Digital technologies have become integral to the lives of children and young people, both within schools and outside school. These technologies are powerful tools, which open up new opportunities for everyone. These technologies can stimulate discussion, promote creativity and stimulate awareness of context to promote effective learning. Young people should have an entitlement to safe internet access at all times.

This Acceptable Use Agreement is intended to ensure:

- *that young people will be responsible users and stay safe while using the internet and other digital technologies for educational, personal and recreational use.*
- *that school systems and users are protected from accidental or deliberate misuse that could put the security of the systems and users at risk.*

The school will try to ensure that students / pupils will have good access to digital technologies to enhance their learning and will, in return, expect the students / pupils to agree to be responsible users.

Acceptable Use Agreement

I understand that I must use school ICT systems in a responsible way, to ensure that there is no risk to my safety or to the safety and security of the ICT systems and other users.

For my own personal safety:

- *I understand that the school will monitor my use of IT systems, devices and digital communications.*
- *I will keep my username and password safe and secure – I will not share it, nor will I try to use any other person's username and password. I understand that I should not write down or store a password where it is possible that someone may steal it.*
- *I will not disclose or share personal information about myself or others when on-line (this could include names, addresses, email addresses, telephone numbers, age, gender, educational details, financial details etc)*
- *I will immediately report any unpleasant or inappropriate material or messages or anything that makes me feel uncomfortable when I see it on-line.*

I understand that everyone has equal rights to use technology as a resource and:

- *I understand that the school systems and devices are primarily intended for educational use and that I will not use them for personal or recreational use unless I have permission.*
- *I will not use the school systems or devices for on-line gaming, on-line gambling, internet shopping, file sharing, or video broadcasting (eg YouTube), unless I have permission of a member of staff to do so.*

I will act as I expect others to act toward me:

- *I will respect others' work and property and will not access, copy, remove or otherwise alter any other user's files, without the owner's knowledge and permission.*
- *I will be polite and responsible when I communicate with others, I will not use strong, aggressive or inappropriate language and I appreciate that others may have different opinions.*
- *I will not take or distribute images of anyone without their permission.*

I recognise that the school has a responsibility to maintain the security and integrity of the technology it offers me and to ensure the smooth running of the school:

- *I understand the risks and will not try to upload, download or access any materials which are illegal or inappropriate or may cause harm or distress to others, nor will I try to use any programmes or software that might allow me to bypass the filtering / security systems in place to prevent access to such materials.*
- *I will immediately report any damage or faults involving equipment or software, however this may have happened.*
- *I will not open any hyperlinks in emails or any attachments to emails, unless I know and trust the person / organisation who sent the email, or if I have any concerns about the validity of the email (due to the risk of the attachment containing viruses or other harmful programmes)*
- *I will not install or attempt to install or store programmes of any type on any school device, nor will I try to alter computer settings.*

When using the internet for research or recreation, I recognise that:

- *I should ensure that I have permission to use the original work of others in my own work*
- *Where work is protected by copyright, I will not try to download copies (including music and videos)*

I understand that I am responsible for my actions, both in and out of school:

- *I understand that the school also has the right to take action against me if I am involved in incidents of inappropriate behaviour, that are covered in this agreement, when I am out of school and where they involve my membership of the school community (examples would be cyber-bullying, use of images or personal information).*
- *I understand that if I fail to comply with this Acceptable Use Agreement, I will be subject to disciplinary action. This may include loss of access to the school network / internet, Hwb+, Office 365, Moodle, detentions, suspensions, contact with parents and in the event of illegal activities involvement of the police.*

Ysgol Tryfan

Defnyddio eich Dyfais Personol - Cytundeb Defnyddiwr Datganiad Myfyriwr (Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 yn Unig)

Hoffwn ddefnyddio fy nyfais TGCh personol fy hun yn yr ysgol. Rwy'n cadarnhau bod y ddyfais hon ar y rhestr o ddyfeisiau a gymeradwyir.

Rwyf wedi darllen a deall y Polisi Defnyddio Dyfais Personol (**DDP**) ac rwy'n cytuno i gydymffurfio at y canllawiau, rheolau a rheoliadau a geir yn y **Polisi DDP** a'r **Cytundeb Myfyriwr.**

Deallaf mai **braint yn hytrach na hawl** yw cael defnyddio dyfais TGCh bersonol yn yr ysgol, a chytunaf i **ddefnyddio'r ddyfais i ddysgu yn unig**.

Cytunaf i gysylltu'r ddyfais â'r **rhwydwaith diwifr DDP** yn unig yn yr ysgol.

Deallaf mai **fi sy'n gyfan gwbl gyfrifol** am **ofalu'n briodol am** fy nyfais TGCh bersonol **a sicrhau ei diogelwch** pan fyddaf yn yr ysgol.

****Llofnod/Cytundeb ar daflen ar wahan****

Cymeradwyaeth Rhiant / Gwarcheidwad

Ymwadiad – darllenwch yn ofalus

Nid yw Ysgol Tryfan yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw golled/difrod i ddyfais TGCh bersonol y myfyriwr tra bydd yn yr ysgol nac yn ystod gweithgareddau a noddir gan yr ysgol. Penderfyniad y myfyriwr a'i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid yw p'un ai yw am ddod â dyfais TGCh bersonol i'r ysgol ai peidio. Hwy hefyd sy'n atebol am unrhyw golled/difrod allai ddigwydd o ganlyniad i ddefnyddio dyfais TGCh bersonol yn yr ysgol. Un o amodau cytuno i adael i fyfyrwyr ddod â dyfeisiau TGCh personol i'r ysgol yw bod y rhiant/gwarcheidwad yn cydlofnodi'r slip caniatâd sy'n derbyn yr ymwadiad hwn.

Rwyf wedi darllen y Polisi Defnyddio Dyfais Personol (DDP) ac yn rhoi cymeradwyaeth i fy mab/merch ddefnyddio dyfais TGCh bersonol yn yr ysgol.

Deallaf mai fy mab/merch sy'n bersonol ac yn gyfan gwbl gyfrifol am ofalu'n briodol am y ddyfais a sicrhau ei diogelwch.

Deallaf nad yw'r ysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddyfais TGCh bersonol a ddefnyddir yn yr ysgol gan fyfyriwr.

Rwy'n deall ac yn derbyn yr ymwadiad.

****Llofnod/Cytundeb ar daflen ar wahan****

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.tryfan.gwynedd.sch.uk

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

Ysgol Tryfan

Bring Your Own Device User Agreement
Student Declaration (Years 10, 11, 12 and 13 Only)

I would like to use my own personal ICT device in school. I confirm this device is on the approved list of devices allowed for BYOD.

I have read and understood the Bring Your Own Device Policy (**BYOD**) and I agree to be bound by the guidelines, rules and regulations contained in the **BYOD Policy** and the **Student Agreement.**

I understand that the use of a personal ICT device in school **is a privilege not a right** and agree to **use the device for learning only.**

I agree only to connect the device to the **BYOD wireless network** in school.

I understand that **I am solely responsible** for the **correct care, safety and security** of my personal ICT device when in school.

****Signature and agreement on seperate sheet****

Parent/Guardian Approval

Disclaimer - please read carefully

Ysgol Tryfan accepts no liability in respect of any loss/damage to students' personal ICT devices while at school or during school-sponsored activities. The decision to bring a personal ICT device into school rests with the student and their parent(s)/guardian(s), as does the liability for any loss/damage that may result from the use of a personal ICT device in school. It is a condition of agreeing to allow students to bring personal ICT devices into school, that the parent/guardian countersigns the permission slip accepting this disclaimer.

I have read the Bring Your Own Device Policy (BYOD) and give my son/daughter approval to use a personal ICT device in school.

I understand my son/daughter is personally and solely responsible for the correct care, safety and security of the device.

I understand that the school accepts no liability in respect of any personal ICT device used in school by a student.

I understand and accept the disclaimer.

****Signature and agreement on seperate sheet****

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.tryfan.gwynedd.sch.uk

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

Ysgol Tryfan

Enw'r Disgybl_____Dosbarth_____

Ffurflen Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion – Pob disgybl

Mae'r ffurflen hon yn gysylltiedig â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol disgyblion, ac mae wedi'i hatodi wrth y ddogfen honno. Llenwch yr adrannau isod os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol.

Rwyf wedi darllen ac rwy'n deall yr uchod ac rwy'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fyddaf yn defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Byddaf yn defnyddio fy offer fy hun oddi allan i'r ysgol mewn modd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r *ysgol* hon, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill yr ysgol, defnyddio system e-bost, rhith-amgylchedd dysgu neu wefan yr ysgol, ac ati.

****Llofnod/Cytundeb ar daflen ar wahan****

Student / Pupil Acceptable Use Agreement Form – All students

This form relates to the *student / pupil* Acceptable Use Agreement, to which it is attached.
Please complete the sections below to show that you have read, understood and agree to the rules included in the Acceptable Use Agreement. If you do not sign and return this agreement, access will not be granted to school ICT systems.

I have read and understand the above and agree to follow these guidelines when:

- I use the school systems and devices (both in and out of school)
- I use my own equipment out of the school in a way that is related to me being a member of this *school* eg communicating with other members of the school, accessing school email, VLE, website etc.

****Signature and agreement on seperate sheet****

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.tryfan.gwynedd.sch.uk

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur